

SWYDD DDISGRIFIAD

Swyddog Ymgysylltu a Chymorth - Cymru

Teitl y Swydd:	Swyddog Ymgysylltu a Chymorth – Cymru
Cyflogwr:	Genetic Alliance UK
Man gwaith:	Gweithio o gartref
Rheolwr Llinell:	Cyfarwyddwr Cymorth
Cyflog:	£25,606-£28,240 (pro rata) yn ddibynnol ar brofiad
Cyfnod:	21 awr yr wythnos, cyfnod penodol am dair blynedd Mae'r swydd hon yn ddibynnol ar gyfnod prawf o chwe mis

Gwybodaeth am Genetic Alliance UK a SWAN UK (*syndromes without a name*):

Mae Genetic Alliance UK yn elusen genedlaethol i fwy na 200 o sefydliadau i gleifion sydd yn cefnogi pawb y mae cyflyrau genetig yn effeithio arnynt. Ein nod yw gwella bywydau pobl y mae cyflyrau genetig yn effeithio arnynt, a gofalu bod gwasanaethau a gwybodaeth o safon uchel ar gael i bawb sydd yn gweld eu hangen.

Rhwydwaith cymorth yw SWAN UK sydd yn cael ei redeg gan Genetic Alliance UK. Dyma'r unig gymorth yn y DU sydd yn arbennig ar gyfer teuluoedd plant sydd â syndrom heb enw – cyflwr genetig sydd mor brin na chaiff fyth ddiagnosis efallai. Rydym yn galluogi teuluoedd i ddod i gysylltiad ag eraill sydd yn deall heriau unigryw magu plentyn sydd â chyflwr genetig heb ddiagnosis. Mae ein fforymau ar-lein a'n Rhwydweithiau Lleol yn rhoi modd i gael gafael ar wybodaeth a chymorth, ac rydym yn cynnal digwyddiadau am ddim yn gyson i ddod â theuluoedd ynghyd a rhoi cyfleoedd i greu atgofion gwerthfawr.

Rôl:

Mae'r rôl hon yn ganolog i ddatblygu'r cymorth yr ydym yn ei gynnig i deuluoedd yng Nghymru y mae cyflyrau genetig prin a heb ddiagnosis yn effeithio arnynt. Drwy weithio'n agos gyda Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu Cymru, bydd deilydd y swydd yn darparu gwybodaeth a chymorth sydd yn benodol i anghenion teuluoedd yng Nghymru, a hynny dan reolaeth linell y Cyfarwyddwr Cymorth (sydd yn gweithio yn Llundain).

Genetic Alliance UK

contactus@geneticalliance.org.uk
geneticalliance.org.uk

Rhifau elusen gofrestredig: 1114195 a SC039299
Rhif cwmni cofrestredig: 05772999

Cyfrifoldebau allweddol:

Cynorthwyo i ddatblygu cymorth a gwybodaeth sydd yn benodol i Gymru, ar gyfer rhieni plant y mae cyflyrau genetig prin a heb ddiagnosis yn effeithio arnynt.

- Cynnwys rhieni lleol drwy amrywiaeth o weithgareddau ar-lein a digwyddiadau ymgynghori i helpu cynhyrchu pecyn gwybodaeth ar ymyrraeth gynnar i Gymru – Adnoddau Prin (Cymru).
- Darparu gweithgareddau a digwyddiadau allgymorth (gan gynnwys gweithgareddau lles, digwyddiadau i'r teulu a digwyddiadau gwybodaeth) i gyrraedd rhieni plant sydd â chyflyrau genetig prin a heb ddiagnosis, a chodi nifer aelodau SWAN UK yng Nghymru.
- Helpu i recriwtio, hyfforddi a chefnogi Cynrychiolwyr Rhieni gwirfoddol yng Nghymru.
- Helpu i hwyluso Grŵp Facebook SWAN UK i Gymru.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau allweddol lleol i ddarparu cymorth holistaidd.

Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau genetig prin a heb ddiagnosis.

- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau yn lleol.
- Helpu i ddatblygu gwybodaeth sydd yn berthnasol ac o safon uchel, yn y Gymraeg a'r Saesneg i godi lefel yr ymgysylltu a dealltwriaeth o effaith cyflyrau genetig prin a heb ddiagnosis.
- Rhwydweithio gyda gwasanaethau a sefydliadau lleol i addysgu gweithwyr proffesiynol lleol.
- Helpu i ddatblygu a gweithredu'r strategaeth gyfathrebu ar gyfer Diwrnod Plant heb Ddiagnosis, a gynhelir pob blwyddyn, a monitro effaith y strategaeth honno.
- Recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr o'r gymuned cyflyrau prin a heb ddiagnosis yng Nghymru, i rannu eu hanesion, bod yn wirfoddolwyr y cyfryngau, a chwarae rhan flaenllaw yn ein gweithgareddau allgymorth a pholisi.

Cynorthwyo i fonitro ein gwaith yn erbyn deilliannau prosiect penodol.

- Cadw cofnodion am weithgareddau ac effaith ein gwaith.
- Helpu i recriwtio aelodau i gymryd rhan i werthuso'r prosiect.

Unrhyw dasgau eraill rhesymol ar gais Genetic Alliance UK.

Addysg a Chymwysterau

- Lefel gradd neu brofiad cyfatebol.

Rhinweddau, sgiliau a phrofiad hanfodol.

- Profiad o weithio mewn rôl debyg yn datblygu gwybodaeth ac/neu gefnogi pobl fregus.
- Rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg (siarad ac ysgrifenedig).
- Lefel uchel o sgiliau TG a phrofiad o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter ac Instagram.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda sylw craff i fanylder.
- Dangos empathi a brwdfrydedd tuag at ddeall cymhlethdodau ac effaith cyflyrau genetig prin a heb ddiagnosis ar fywyd teuluol.
- Sgiliau trefniadaeth rhagorol a'r gallu i drefnu eich amser eich hun, cynllunio ymlaen, cadw cofnodion a rheoli a blaenoriaethu dyddiadau cwblhau, yn effeithiol ac yn annibynnol.
- Creadigrwydd a dyfeisgarwch a'r gallu i weithio'n annibynnol a dangos menter wrth weithio fel rhan o dîm o bell.
- Gallu gweithio ambell noson a phenwythnos, a theithio yn y DU yn achlysurol, gan gynnwys aros dros nos weithiau.
- Ymrwymiad i nodau ac amcanion Genetic Alliance UK a SWAN UK.

Rhinweddau, sgiliau a phrofiad dymunol

- Profiad o weithio gyda theuluoedd plant anabl.
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr, am dâl neu'n wirfoddol.
- Profiad o drefnu digwyddiadau.
- Gwybodaeth am y gyfundrefn addysg, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Manylion gwneud cais:

- Dyddiad cau ceisiadau: Dydd Gwener, 13 Tachwedd.
- Cyfweiliadau: wythnos 23 Tachwedd.
- Dyddiad cychwyn: Cyn gynted â phosibl.

Anfonwch e-bost gyda'ch CV a llythyr eglurhaol (yn Saesneg) at: Lauren Roberts, Cyfarwyddwr Cymorth: recruitment@geneticalliance.org.uk.

Yn eich llythyr, dylech roi manylion pam eich bod yn addas i'r rôl hon gan roi enghreifftiau o waith blaenorol, ble bynnag mae modd. Cofiwch gadw eich dogfen fel Enwllawn.CV ac Enwllawn.Coverletter gan nodi eich enw a'r swydd rydych chi'n gwneud cais amdani yn llinell pwnc yr e-bost. Ni chaiff ceisiadau eu hystyried heb lythyr eglurhaol.

Am fwy o wybodaeth, ewch ar undiagnosed.org.uk a geneticalliance.org.uk.